Y Comisiwn Etholiadol

# Polisi Datgelu – Gwaith Achos Gorfodi

## Cyflwyniad

Fel rheoleiddiwr cyfrifol, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod gan y cyhoedd a'r rhai hynny rydym yn eu rheoleiddio ddiddordeb yn sut mae'r Comisiwn yn cyflawni ei rôl monitro ac ymchwilio statudol mewn perthynas â chyllid pleidiau ac etholiadau.

Mae'r polisi hwn yn nodi pa wybodaeth y byddwn yn rhyddhau mewn perthynas â'n gwaith achos gorfodi ac ym mha amgylchiadau y byddwn yn rhyddhau gwybodaeth.

## Asesiadau cychwynnol

Mae'r ffordd rydym yn ystyried honiadau neu faterion sy'n dod at ein sylw sydd o bosibl, yn torri'r gyfraith sy'n ymwneud â chyllid pleidiau ac etholiadau yn cael ei osod ar ein gwefan yn:

www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement/making-allegations

Anelwn at gwblhau'r asesiad cychwynnol o unrhyw fater a roddir ar ein system gwaith achos o fewn pum diwrnod gwaith. Ar y sail honno, ni fyddwn fel arfer yn hysbysu'r unigolyn na'r corff sy'n destun y mater hyd nes ein bod wedi cwblhau'r asesiad cychwynnol.

## Ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau ynghylch materion sy'n destun asesiad cychwynnol

Ni fydd y Comisiwn yn rhoi sylwadau ar unrhyw fater sy'n destun asesiad cychwynnol i benderfynu a ddylid cynnal adolygiad achos neu ymchwiliad. Rydym yn ystyried y gallai datgelu gwybodaeth ar y cam hwn fod yn annheg i bobl a allai fod yn destun asesiadau o'r fath.

Fodd bynnag, os bydd y Comisiwn yn cael ymholiad gan y cyfryngau am honiad sydd yn destun asesiad ar hyn o bryd a:

1. bod achwynydd y gŵyn sy'n destun asesiad wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater yn flaenorol; neu
2. mewn rhai achosion lle'r ystyriwn y gallai fod risg o gamsyniadau gan y cyhoedd ynghylch cwmpas y materion sy'n cael eu hystyried neu'r cam y mae ymholiadau'r Comisiwn wedi eu cyrraedd

Efallai y byddwn yn cadarnhau enw'r sawl neu'r sefydliad y mae'r gŵyn sy'n destun asesiad cychwynnol yn berthnasol iddynt a'r torcyfraith neu'r drosedd posibl sy'n destun asesiad. Yn yr achosion hyn, byddwn yn hysbysu'r sawl y mae a wnelo'r gŵyn ag ef cyn cadarnhau unrhyw beth gyda'r cyfryngau, ac yn cynghori y byddwn yn cysylltu â hwy eto ar ôl i'r asesiad cychwynnol gael ei gwblhau.

Mewn achosion pan fyddwn wedi cadarnhau i'r cyfryngau bod cwyn yn destun asesiad, byddwn hefyd yn hysbysu'r cyfryngau o'r canlyniad, ar ôl i ni hysbysu'r sawl sy'n destun y gŵyn o'r canlyniad.

# Cau mater ar ôl asesiad cychwynnol

Pan fyddwn wedi cwblhau ein hasesiad cychwynnol mewn perthynas â chŵyn ac wedi penderfynu cau'r mater, byddwn yn hysbysu'r corff neu'r sawl sy'n destun yr honiad. Byddwn hefyd yn hysbysu'r achwynydd o'r canlyniad.

# Dechrau achosion a adolygir neu ymchwiliad

Os bydd asesiad cychwynnol yn destun ymholiadau pellach, byddwn yn hysbysu'r corff neu'r sawl sy'n destun yr ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt, a'r achwynydd ar bapur.

Mewn achosion sydd eisoes yn destun diddordeb y cyhoedd a / neu'r cyfryngau, efallai y byddwn yn cyhoeddi datganiad cyhoeddus neu ddatganiad i'r wasg ynghylch dechrau'r adolygiad neu'r ymchwiliad.

# Ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau ynghylch ymchwiliadau ac adolygiadau achos cyfredol

Os byddwn yn cael ymholiad penodol gan y cyfryngau sy'n ymwneud ag achos, byddwn yn cadarnhau a yw'r achos yn cael ei adolygu neu ei ymchwilio ai peidio: byddwn yn cadarnhau natur y mater sy'n destun adolygiad neu ymchwiliad h.y. y torcyfraith neu'r drosedd bosibl berthnasol, ac yn darparu gwybodaeth am amserlenni'r Comisiwn ar gyfer cwblhau adolygiadau achos ac ymchwiliadau.

Caiff ceisiadau am fanylion adolygiadau neu ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 eu hystyried ar sail teilyngdod yn unol â'r ddeddfwriaeth.  Mae eithriadau i ryddhau gwybodaeth am resymau 'ymchwilio', o fewn y derminoleg ac ystyr y ddeddfwriaeth, er enghraifft, yn debygol o fod yn gymwys.

# Gwybodaeth ynghylch adolygiadau achos neu ymchwiliadau sydd wedi'u cwblhau

Ar ddiwedd achos a adolygir neu ymchwiliad lle na fydd sancsiwn yn cael ei osod, byddwn yn ysgrifennu at y sawl sy'n destun yr adolygiad achos neu'r ymchwiliad i gadarnhau hyn.  Byddwn hefyd yn hysbysu'r achwynydd o'r canlyniad.

Mewn achosion lle mae sancsiwn sifil o gosb ariannol benodedig, cosb ariannol newidiol neu hysbysiad adfer wedi ei osod, byddwn yn cynghori'r sawl sy'n destun y canlyniad trwy gyfrwng hysbysiad fel y nodir yn ein polisi Gorfodi (adrannau 11-13. Byddwn hefyd yn hysbysu'r achwynydd o'r canlyniad.

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas ag achosion wedi'u cwblhau ar wefan y Comisiwn, gan gynnwys enw'r sawl sy'n destun yr adolygiad achos neu'r ymchwiliad, y torcyfraith neu'r drosedd bosibl a'r canlyniad. Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys:

- a oedd torcyfraith neu drosedd wedi'i chanfod
- a osodwyd sancsiwn a natur y sancsiwn
- y rhesymau dros osod unrhyw sancsiynau
- p'un ai'r sancsiwn yw testun yr apêl

Mewn achosion sy'n destun apêl, byddwn yn diweddaru'r wybodaeth ar ein gwefan mewn perthynas **â**'r achosion hyn i gynnwys canlyniad yr apêl.

# Crynodeb o adroddiadau achos

Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn cynhyrchu crynodeb o adroddiad achos mwy manwl a / neu gyhoeddi datganiad i'r wasg.  Yn yr achosion hyn, byddwn yn hysbysu'r sawl sy'n destun yr adolygiad achos neu'r ymchwiliad cyn cyhoeddi'r datganiad newyddion neu'r adroddiad cryno.

Mewn achosion lle rydym wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg ar ddechrau'r adolygiad achos neu ymchwiliad, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg wrth gau'r achos.

# Adroddiad blynyddol ar y defnydd o'n pwerau/sancsiynau

O dan atodlenni 19B a 19C i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad blynyddol ar y defnydd o'n pwerau ymchwilio a sancsiynau sifil.

Adolygiadau (lle na fyddwn wedi defnyddio ein pwerau statudol) - ystadegau ar nifer yr adolygiadau achosion ac ymchwiliadau a gynhaliwyd gan gyfeirio at atodiad o adroddiadau cryno (rhoddir adroddiadau dienw ar gyfer yr adolygiadau hynny lle na osodwyd sancsiwn)

Defnydd o sancsiynau sifil - ystadegau (lle na chafodd y gosb ei diddymu yn dilyn apêl) ar nifer y cosbau ariannol penodedig, nifer y gofynion dewisol a gyflwynwyd a'u math, y rhybuddion atal a roddwyd, a'r ymgymeriadau gorfodi a dderbyniwyd, gan gyfeirio at atodiad o adroddiadau cryno.

Proses gyfreithiol – ystadegau ar gyfeirio achosion i'r heddlu, erlyniadau, neu'r defnydd o ymgyfreitha sifil (fel camau fforffedu)